# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Meeting Room 4B, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Mai 2025

Amser: 09.00 - 09.56

# Private, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafodd yr Aelodau eu croesawu i'r cyfarfod gan y Dirprwy Lywydd, a chafodd eitemau 3.1 a 3.3 eu cadeirio ganddo. Y Llywydd a gadeiriodd weddill y cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg – (15 munud)~~ G*ohiriwyd tan 3 Mehefin*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

Gofynnodd Heledd Fychan i'r Llywodraeth wneud datganiadau llafar ar y materion canlynol:

- oedi i atgyweirio Pont Menai;
- dirwyon a osodwyd ar Dŵr Cymru am fethu â monitro ansawdd dŵr yn iawn; a
- goblygiadau cytundeb fasnach a DU a'r UE i Gymru.

Mewn ymateb, dywedodd y Trefnydd fod y Llywodraeth yn ystyried gohebiaeth gan Rhun ap Iorwerth AS ynglŷn â'r sefyllfa gyda Phont Menai ac y bydd yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater. Nododd fod datganiad ysgrifenedig ar gytundeb masnach y DU-UE wedi'i gyhoeddi ac y byddai'n ystyried y ceisiadau a wnaed.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 3 Mehefin 2025 -**

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (15 munud)

**Dydd Mawrth 10 Mehefin 2025 -**

- Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 4 Mehefin 2025 -**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gellir Cyflawni Unrhyw Beth gyda'r Gefnogaeth Gywir: Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 11 Mehefin*
- Dadl Fer: Llyr Gruffydd AS (Gogledd Cymru) (30 munud) *Wedi'i ddwyn ymlaen o 11 Mehefin*

**Dydd Mercher 11 Mehefin 2025 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gellir Cyflawni Unrhyw Beth gyda'r Gefnogaeth Gywir: Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd (60 munud) *Symudwyd o 4 Mehefin*
- ~~Dadl Fer: Llyr Gruffydd AS (Gogledd Cymru) (30 munud)~~ *Symudwyd i 4 Mehefin*

Cytunwyd i drefnu'r eitemau a ganlyn hefyd ar Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 18 Mehefin 2025 –**

- Dadl ar ddeiseb. P-06-1365 Ailagor llinellau rheilffyrdd i gysylltu gogledd a de Cymru (30 munud)
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Dadl agored (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

# 4 Pwyllgorau

## 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud cais am ddadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Pwyllgor Deisebau i amserlennu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ddeiseb *P-06-1525 Diogelu cymeriad unigryw Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru* cyn toriad yr haf.

### 4.2 Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru: Trefniadau Cadeirio

Trafododd y Pwyllgor Busnes nifer o opsiynau mewn perthynas â Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru. Cadarnhaodd Paul Davies y byddai grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn ymwneud â chraffu a gynhelir gan bwyllgorau pwnc eraill. Nododd y Trefnydd y byddai'r grŵp Llafur yn fodlon i'r Pwyllgor barhau â'i waith pe gellid enwebu cyd-gadeirydd newydd. Ailbwysleisiodd Heledd Fychan safbwynt grŵp Plaid Cymru, sef canfod ffordd i'r Pwyllgor a'r gwaith craffu ar Ymchwiliad Covid y DU barhau yn y Senedd, ond gan nodi nad oedd trefniadau cyd-gadeirio wedi gweithio ac na fyddai'r grŵp yn fodlon enwebu cyd-gadeirydd ar y sail honno.

Cynigiodd y Llywydd fod y Pwyllgor Busnes yn ystyried gwahodd pwyllgorau perthnasol i archwilio'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan Ymchwiliad Covid y DU ar ddiwedd ei ystyriaeth o bob modiwl ac i graffu ar y materion sy'n berthnasol i Gymru. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried cynnig yn ymwneud â hyn mewn cyfarfod dilynol.

## 5 Deddfwriaeth

### 5.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trefnydd a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 27 Mehefin 2025.
- nodi'r sefyllfa mewn perthynas â Memorandwm Atodol (Rhif 5) ar y Bil Data (Defnyddio a Mynediad) mewn perthynas â chyfnod hwyr amserlen y Bil yn Senedd y DU ond cytunwyd i'w gyfeirio i'w ystyried gan y pwyllgorau perthnasol, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gofynnwyd i'r Llywodraeth ddarparu rhagor o wybodaeth am yr amserlen debygol ar gyfer y Bil hwn.

- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg tan 2 Mehefin 2025 a nodi y gallai fod angen i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad adrodd ar fore 3 Mehefin oherwydd eu cyfarfod ar 2 Mehefin.

### 5.2 Papurau ar faterion i'w hystyried yn sgil cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydgrynhoi cyfraith gynllunio

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar y goblygiadau i’r Senedd yn sgil cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau i gydgrynhoi'r gyfraith gynllunio. Roedd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni yn bresennol i gyfrannu at drafodaeth ynghylch amserlenni arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer craffu ar y Biliau.

Amlinellodd swyddogion Comisiwn y Senedd y goblygiadau posibl a allai ddeillio o'r amser cyfyngedig a fydd ar gael i graffu ar y Biliau gan bwyllgorau a'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn. Yn benodol, nodwyd na fyddai'r amserlen gyffredinol yn gallu darparu digon o amser ar gyfer y Cam Ystyriaeth Gychwynnol a chaniatáu’r posibilrwydd o Gam Ystyried Manwl y Senedd (pe bai'r pwyllgor cyfrifol yn argymell hynny i'r Senedd ).

Roedd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni yn cydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â maint y Biliau a'r amser sy'n weddill ar gyfer craffu a'u pasio drwy'r Senedd. Ailadroddodd fod y Llywodraeth yn bwriadu darparu Biliau drafft i'r pwyllgor cyfrifol ar yr adeg y maent yn cael eu hanfon at y Llywydd ar gyfer Penderfyniad ac y bydd hi’n sicrhau ei bod hi a’i swyddogion ar gael i'r pwyllgor yn ôl yr angen drwy gydol y Cam Ystyried Cychwynnol.

Nododd y Cwnsler Cyffredinol fod gan y Llywodraeth safbwynt gwahanol ar amserlen Cyfnod Manwl y Senedd, ac amlinellodd ffordd o feddwl y Llywodraeth o ran y modd y gellid trin y cam(au) diwygio ar gyfer dau Fil Cydgrynhoi cysylltiedig ond ar wahân.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i nodi cyngor ar y weithdrefn ar gyfer craffu ar Filiau Cydgrynhoi ac y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd yn cyfarfod i drafod ymhellach gynigion ar gyfer yr amserlenni ar gyfer y ddau Fil Cydgrynhoi. Yn benodol, gofynnwyd i swyddogion ystyried cwestiynau ynghylch sut y dylid trin y cam(au) diwygio mewn perthynas â'r ddau Fil cysylltiedig ond ar wahân.

### 5.3 Blwyddyn Pump y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Amlinellodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer amserlenni o ran y Biliau ym Mlwyddyn Pump y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a nododd eto fod y Llywodraeth yn bwriadu sicrhau bod fersiynau drafft o'r Biliau ar gael i bwyllgorau pan fyddant yn cael eu darparu i'r Llywydd ar gyfer y cyfnod Penderfyniad.

Nododd y Pwyllgor Busnes gynigion cyfredol y Llywodraeth a bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o fanylion ar bob un cyn toriad yr haf i gynorthwyo'r pwyllgorau arweiniol i gynllunio eu gwaith craffu.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd nifer o faterion mewn perthynas â phwyllgorau sydd â diddordeb mewn Biliau gydag amserlenni sy'n gorgyffwrdd a chytunodd y bydd swyddogion Comisiwn y Senedd yn llunio cyngor ar ddyrannu Biliau posibl i bwyllgorau presennol neu ychwanegol cyn gofyn iddo gytuno ar amserlenni arfaethedig.

## 6 Unrhyw fater arall

**Lle Russell George ar b**wyllgor

Nododd Paul Davies y byddai'r Grŵp Ceidwadol yn fodlon cynnig un o'u lleoedd ar bwyllgor i Russell George AS ac y byddai'n cysylltu â'r ysgrifenyddiaeth er mwyn trefnu hyn.

## Diddymu Pwyllgor y Biliau Diwygio a Phwyllgor Senedd y Dyfodol

Nododd y Pwyllgor Busnes fod gwaith Pwyllgor y Biliau Diwygio a Phwyllgor Senedd y Dyfodol bellach wedi dod i ben. Diolchodd y Rheolwyr Busnes i'r Dirprwy Lywydd am gadeirio'r ddau bwyllgor a chytunodd i gyflwyno cynigion i'r Senedd ar ôl yr hanner tymor i gynnig diddymu'r pwyllgorau.